| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU** |
| DYDDIAD | **30 GORFFENNAF 2020** |
| TEITL | **CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **AMLINELLU GWAITH ARCHWILIO MEWNOL AM Y CYFNOD HYD AT 31 MAWRTH 2020** |
| AWDUR | **LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN YR ADRODDIAD, SYLWEBU AR Y CYNNWYS A CHEFNOGI'R GWEITHREDIADAU SYDD EISOES WEDI'U CYTUNO GYDA'R GWASANAETHAU PERTHNASOL** |

---

**1. CYFLWYNIAD**

1.1 Mae'r adroddiad yma yn crynhoi gwaith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 3 Chwefor 2020 hyd 31 Mawrth 2020.

**2. GWAITH A GWBLHAWYD YN Y CYFNOD**

2.1 Cwblhawyd y gwaith canlynol yn y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2020:

| **Disgrifiad** | **Nifer** |
|---|---|
| Adroddiadau am Archwiliadau o'r Cynllun Gweithredol | 10 |
| Adroddiadau Eraill o'r Cynllun Gweithredol (memoranda) | 1 |

Ceir manylion pellach ar y gwaith yma yng nghorff yr adroddiad hwn ac yn yr atodiadau amgaeedig.

**2.2 Adroddiadau Archwilio**

2.2.1 Mae'r tabl canlynol yn gosod allan yr archwiliadau o'r cynllun a gwblhawyd yn y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2020, gan ddangos y lefel sicrwydd perthnasol a chyfeiriad i'r atodiad perthnasol.

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | LEFEL SICRWYDD | ATODIAD |
|---|---|---|---|---|
| Merched mewn Arweinyddiaeth | Corfforaethol | - | Uchel | Atodiad 1 |
| Trefniadau Diogelu - Sefydliadau | Corfforaethol | - | Digonol | Atodiad 2 |
| Rheoli Gwybodaeth - Sefydliadau | Corfforaethol | - | Digonol | Atodiad 3 |
| GwE – Costau Teithio | Addysg | GwE | Cyfyngedig | Atodiad 4 |
| Uned Diogelwch y Ffyrdd | Amgylchedd | Trafnidiaeth a Gofal Stryd | Digonol | Atodiad 5 |
| Cysoni Banc | Cyllid | Cyfrifeg | Digonol | Atodiad 6 |
| Budd-daliadau – Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | Cyllid | Refeniw | Uchel | Atodiad 7 |
| Defnydd o Ffurflenni P6 | Oedolion, Iechyd a Llesiant/Plant a Chefnogi Teuluoedd | Ar draws yr Adran | Uchel | Atodiad 8 |
| Goramser | Priffyrdd a Bwrdeistrefol | Ar draws yr Adran | Cyfyngedig | Atodiad 9 |
| Rhaglen Waith Pontydd | Priffyrdd a Bwrdeistrefol | Gwaith Priffyrdd | Cyfyngedig | Atodiad 10 |

2.2.2 Mae lefelau sicrwydd cyffredinol archwiliadau yn syrthio i un o bedwar categori fel y dengys y tabl isod.

| | | |
|---|---|---|
| **LEFEL SICRWYDD** | **UCHEL** | Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion. |
| | **DIGONOL** | Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach. |
| | **CYFYNGEDIG** | Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt. |
| | **DIM SICRWYDD** | Ystyrir bod y rheolaethau mewn lle yn annigonol gyda methiant i gyflawni amcanion. |

2.2.3 Yn ogystal â'r uchod, cynhyrchwyd memorandwm yn hytrach nag adroddiad llawn ar "Ddiwylliant a Moeseg", ac ni roddwyd categori ar gyfer lefel sicrwydd. Fel rhan o'r gwaith, crëwyd holiadur pwrpasol gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol. Cynhaliwyd cyfarfod gyda Phennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol, Rheolwr Dysgu a Datblygu'r Sefydliad ac Uwch Swyddog Datblygu'r Sefydliad er mwyn ymgynghori ar ddulliau addas i dderbyn adborth ar ddiwylliant y Cyngor a chynyddu'r amrywiaeth o staff a fuasai'n cwblhau'r holiadur.

## 3. GWAITH DILYNIANT

3.1 Mae trefniadau newydd wedi eu sefydlu ar gyfer archwiliadau dilyniant. Yn 2018/19, daethpwyd i gytundeb ar 88 o gamau gweithredu i'w cyflawni erbyn 31 Mawrth 2020. Yn dilyn cais am wybodaeth a thystiolaeth gan yr Unedau/Gwasanaethau perthnasol ar gynnydd gweithrediadau, dengys ar 31 Mawrth 2020 bod gweithrediad derbyniol ar **100%** o'r camau cytunedig a gytunwyd i liniaru risgiau uchel/uchel iawn, h.y. 11 allan o 11, a **72.73%** o'r camau cytunedig a gytunwyd i liniaru risgiau isel/canolig., h.y. 56 allan o 77.

3.2 Ar y cyfan, gwelwyd bod gweithrediad derbyniol ar **76.13%** o'r camau cytunedig, h.y. 67 allan o 88 gweithrediad cytunedig. Gwelwyd bod cynnydd wedi ei wneud ar **12.5%,** h.y. 11 gweithrediad cytunedig ond ni dderbyniwyd ymateb mewn perthynas â **11.36%** o'r gweithrediadau. Ni dderbyniwyd ymateb ar gyfer yr archwiliadau canlynol:

- Rheoli Gwybodaeth - Sefydliadau (1 gweithrediad)
- Diogelwch Seibr (1 gweithrediad)
- Trefniadau Adfer Trychineb TG (4 gweithrediad)
- Prynu Cyfarpar drwy'r Ysgol (2 gweithrediad)
- Plant – Lleoliadau All-Sirol (2 gweithrediad)

**4. GWAITH AR Y GWEILL**

4.1 Roedd y gwaith canlynol ar y gweill ar 31 Mawrth 2020:

- 5 Ffordd o Weithio *(Corfforaethol)*
- ARFOR *(Economi a Chymuned)*
- Plas Gwilym *(Oedolion, Iechyd a Llesiant)*
- Cerbydau Bwrdeistrefol *(Priffyrdd a Bwrdeistrefol)*

**5. ARGYMHELLIAD**

5.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad hwn ar waith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 3 Chwefror 2020 hyd at 31 Mawrth 2020, sylwebu ar y cynnwys yn ôl dymuniad yr aelodau, a chefnogi'r gweithrediadau cytunedig sydd eisoes wedi'u cyflwyno i reolwyr y gwasanaethau perthnasol.

Atodiad 1

# MERCHED MEWN ARWEINYDDIAETH CORFFORAETHOL

## 1. Cefndir

1.1 Cynhaliwyd arolwg yn 2017 ble adnabuwyd bod dros 70% o weithlu'r Cygor yn ferched ond mai ychydig dros 30% o'r uwch swyddi s'yn cael eu gweithredu gan ferched. O holl swyddi arweinyddol y Cyngor (h.y. arweinydd / uwch reolwyr sydd yn uniongyrchol ymatebol i Bennaeth Adran neu uwch) mae 75% yn cael eu gweithredu gan ddynion a 25% yn unig gan ferched, ac o ganlyniad mae tangynrychiolaeth o ferched o fewn y Cyngor. Mae'r ymchwil hefyd yn dangos nad yw merched yn aml yn ystyried eu hunain yn arweinwyr, ac nad ydynt mor barod i ymgeisio/ymgymryd â rolau arweinyddol. Yn ogystal, mae'r ymchwil yn dangos bod rhagfarn ddiarwybod (unconscious bias) yn parhau i fodoli ymysg y dynion hynny fyddai'n gyfrifol am benodiadau i'r uwch swyddi hynny.

*1.2* Un o brif flaenoriaethau Cynllun y Cyngor 2018-2023 yw 'Merched mewn Arweinyddiaeth'. Bwriedir adolygu'r amodau a'r amgylchedd gwaith er mwyn sicrhau bod Cyngor Gwynedd yn flaengar, yn annog 'merched mewn arweinyddiaeth' ac yn adnabod a cheisio dileu unrhyw rwystrau all fod yn atal merched rhag cyrraedd swyddi arweiniol a rheolaethol o fewn y Cyngor. Mynegir adroddiad Cabinet dyddiedig 28 Ionawr 2020 mai "*Nod y prosiect yw hybu'r nifer o ferched sy'n ymgeisio ac yn cyrraedd swyddi uwch o fewn y Cyngor.*"

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle i weithredu a chyflawni blaenoriaeth gwella 3 yng Nghynllun Cyngor Gwynedd, sef Merched mewn Arweinyddiaeth. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio gweithrediadau mae'r Cyngor wedi eu cymryd i hybu'r nifer o ferched sy'n ymgeisio i gyrraedd swyddi uwch o fewn y Cyngor.

## 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **UCHEL** | **Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.** |

## 4. Prif Ddarganfyddiadau

4.1 Sefydlwyd Grŵp Prosiect 'Merched mewn Arweinyddiaeth' ac ar hyn o bryd mae cyfansoddiad y grŵp yn cynnwys trawsdoriad o ddynion a merched mewn swyddi rheolaethol ynghyd ag dwy Aelod Cabinet. Bydd y grŵp yn ymdrechu i wella eu dealltwriaeth o'r rhwystrau cyffredin sy'n dylanwadu ar benderfyniadau gyrfaol merched ac yn ymateb iddynt. Byddent yn gwneud hyn drwy:

a) canfod y rhwystrau a chytuno ar gamau gweithredu er mwyn newid diwylliant ac annog ac ysbrydoli merched i ystyried rôl arweiniol a rheolaethol; ac

b) codi ymwybyddiaeth o ragfarn ddiarwybod ymysg dynion a chyflwyno trefniadau sy'n annog cyfleoedd cyfartal.

4.2 Cynhaliwyd gweithdy ym mis Hydref 2019, i ferched sydd eisoes mewn swyddi rheoli neu arwain tîm er mwyn casglu adborth pellach i'r hyn a gasglwyd yn ystod arolwg 2017. Gwahoddwyd siaradwyr gwadd a chynhaliwyd gweithgaredd er mwyn clywed barn, arfer da a derbyn awgrymiadau gan y mynychwyr. Cafwyd llawer o sylwadau, amlygwyd pwyntiau megis cydbwysedd, hyblygrwydd, ofn methu a.y.b. Yn ogystal, derbyniwyd awgrymiadau megis, mentora, annog unigolion i gymryd y camau nesaf yn eu gyrfa, gwneud defnydd o fodelau rôl a.y.b. Nodwyd bod yr adborth a dderbyniwyd yn dilyn y gweithdy yn gadarnhaol iawn, dylid nodi nad oedd pob unigolyn wnaeth fynychu'r gweithdy yn credu bod y ffaith eu bod yn ferch wedi cael effaith negyddol ar ddatblygiad eu gyrfa.

4.3 Cynhaliwyd gweithdy i ddynion sy'n gweithio mewn rolau rheoli neu arweinyddol ym mis Rhagfyr 2019, mewn ymdrech i ledaenu ymwybyddiaeth o'r hyn sydd angen sylw ac i dderbyn adborth ganddynt hwythau hefyd. Fe wahoddwyd siaradwyr gwadd a chynhaliwyd yr un gweithgaredd, adnabuwyd yr angen i adolygu swydd ddisgrifiadau rheolwyr fel nad oes ganddynt dueddiadau dynol, yr angen i roi cefnogaeth i ferched a dynion sydd eisiau manteisio ar bolisïau penodol (gofal plant, mamolaeth, tadolaeth) a.y.b.

4.4 Mae camau eisoes wedi eu cymryd i dderbyn adborth pellach. Gwnaethpwyd cais drwy e-bost i reolwyr y Cyngor yn gofyn iddynt gynnal trafodaethau yn eu cyfarfodydd tîm ynglŷn â pha rwystrau a wynebir gan ferched yng nghyd-destun ymgeisio a chael eu penodi'n rheolwyr neu i uwch swyddogaethau yn y Cyngor. Yn ogystal, bwriedir cynnal arolwg ar ffurf holiadur ar gyfer holl ferched y Cyngor ym mis Mawrth 2020 i adnabod y rhwystrau a chlywed am eu dyheadau.

4.5 Defnyddiwyd yr holl wybodaeth sydd wedi ei gasglu hyd yma i lunio'r cynllun gweithredu a bydd y fersiwn diwygiedig yn cael ei gymeradwyo gan y Grŵp prosiect yn eu cyfarfod nesaf ar y 3 Mawrth 2020. Megis cychwyn mae'r gwaith o ran ymateb i'r hyn sydd wedi ei amlygu hyd yma. Bydd gwaith parhaus o ran ymchwilio i'r maes, gydag aelodau o'r grŵp yn mynychu cynadleddau, yn ymchwilio i ymarfer da ac yn cael cyfleoedd i fynychu cyrsiau perthnasol. Yn yr hirdymor gobeithir y bydd y prosiect yw newid diwylliant o fewn y Cyngor a bod merched yn teimlo eu bod yn gallu ymgeisio am swyddi arweinyddiaeth/rheolaethol.

Atodiad 2

**TREFNIADAU DIOGELU - SEFYDLIADAU CORFFORAETHOL**

## 1. Cefndir

1.1 Un o brif flaenoriaethu Cyngor Gwynedd yw sicrhau bod trefniadau a gweithdrefnau cadarn mewn lle er mwyn sicrhau bod trigolion yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth, esgeulustod, radicaleiddio, caethwasiaeth, trais yn y cartref ac ecsploetiaeth. Mae cyfrifoldeb ar bob aelod o staff i adrodd ar bryder neu amheuaeth fod unigolion yn cael eu cam-drin.

1.2 Mae nifer o bosteri ynghyd â phamffledi a chardiau cyswllt wedi eu cynhyrchu er mwyn codi ymwybyddiaeth staff o faterion a threfniadau diogelu. Yn ogystal, mae modiwlau e-ddysgu ar gael i weithwyr sydd â mynediad at gyfrifiadur a thrwy hunan-wasanaeth ar gyfer gweithwyr maes.

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod sefydliadau tu allan i brif swyddfeydd y Cyngor yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb i gyfeirio pryderon am ddiogelu plant ac oedolion yn briodol.

2.2. Roedd yr archwiliad yn cael ei arddangos yn cwmpasu cynnal trafodaethau gyda Rheolwyr ac arsylwi bod poster diogelu yn cael ei arddangos mewn sefydliadau y tu allan i'r prif swyddfeydd. Roedd hyn yn cynnwys cartrefi preswyl ac harbyrau Cyngor Gwynedd bu i Archwilio Mewnol ymweld â hwy fel rhan o gynllun blynyddol Archwilio Menwol 2019/20.

## 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **DIGONOL** | **Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.** |

## 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| **UCHEL IAWN** | 0 |
| **UCHEL** | 0 |
| **CANOLIG** | 1 |
| **ISEL** | 0 |

## 5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Gwelwyd yn gyffredinol bod ymwybyddiaeth o faterion diogelu, ond fod lle i wella ar godi ymwybyddiaeth ymhellach. Fel rhan o gynllun archwilio 2019/20, archwiliwyd sampl o gartrefi preswyl ac harbyrau y Cyngor. Ymysg y rhaglen archwilio, fe archwiliwyd trefniadau diogelu megis polisïau diogelu, hyfforddiant a dadleniadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG/DBS) yn y cartrefi. Gweler isod grynodeb o'r darganfyddiadau.

5.2 Roedd pob cartref yn y sampl yn dilyn polisi corfforaethol y Cyngor, sydd eisoes wedi cael ei adolygu ym mis Medi 2017. Gwelwyd bod un cartref yn defnyddio Polisi a Chanllawiau Amddiffyn Oedolion Bregus Gogledd Cymru yn ogystal.

5.3 Gwelwyd bod poster diogelu wedi ei arddangos mewn dau allan o'r tri Cartref Preswyl a ymwelwyd â hwy. Yn yr achos ble nad oedd poster wedi ei arddangos yn un o'r Cartrefi, gwelwyd bod gan y Rheolwraig gardiau cyswllt diogelu ac eglurodd ei bod yn rhoi un i bob aelod o staff newydd.

5.4 Gwelwyd bod staff y cartrefi yn derbyn amrywiaeth gwahanol o hyfforddiant diogelu oedolion bregus megis hyfforddiant sylfaenol Cymru gyfan ar ymwybyddiaeth o ddiogelu, ymwybyddiaeth POVA (Protection of Vulnerable Adults), a hyfforddiant diogelu fel rhan o'u hanwythiad. Dylai'r gweithwyr dderbyn hyfforddiant diogelu drwy ffurf ystafell ddosbarth pob tair blynedd. Nid oedd pob aelod o staff yn y sampl wedi derbyn hyfforddiant diogelu oedolion bregus, a darganfuwyd achosion ble roedd angen ei adnewyddu. Roedd hyfforddiant amryw o staff yn dyddio yn ôl mwy na'r cyfnod tair blynedd gyda rhai yn dyddio yn ôl i 2014. Yn yr achosion yma, roedd Rheolwyr Cartrefi yn ymwybodol o'r sefyllfa a gwelwyd bod enwau wedi eu rhoi ymlaen ar gyfer gwneud y cwrs hyd at 2020.

5.5 Gwiriwyd cofnodion hyfforddiant e-ddysgu gan gynnwys modiwlau 'Cam-drin Domestig', 'Diogelu Oedolion' ac 'Amddiffyn a Diogelu Plant'. Detholwyd sampl o 35 aelod o staff rhwng y tri cartref a gwelwyd mai 20 allan o 35 o aelodau staff oedd wedi cwblhau'r modiwl 'Cam-drin Domestig' rhwng y tri cartref. Roedd rheolwyr y cartrefi yn ymwybodol o'r angen i gwblhau'r modiwlau yma, ond nododd un ohonynt am y trafferthion maent wedi ei gael gyda'r we. Nid yw'n angenrheidiol i staff gwblhau'r modiwlau diogelu gan eu bod eisoes yn derbyn hyfforddiant wyneb yn wyneb ond o ran y modiwlau 'Cam-drin domestig' mae'n angenrheidiol i bob aelod o staff y Cyngor i gwblhau'r modiwl.

5.6 Gwelwyd bod poster diogelu ym mhob un o'r harbyrau yr ymwelwyd â hwy. Gwiriwyd cofnodion hyfforddiant e-ddysgu gan gynnwys modiwlau fel 'amddiffyn a diogelu plant', 'amddiffyn oedolion' a 'cham-drin domestig', a gwelwyd bod y tri harbwrfeistr a Rheolwr Hafan wedi cwblhau'r hyfforddiant "amddiffyn a diogelu plant" yn 2016. Ni chwblhaodd yr un o'r pedwar hyfforddiant e-ddysgu 'Amddiffyn Oedolion' neu 'gam-drin domestig'.

5.7 Gwelwyd bod holiadur diogelu plant ac oedolion bregus nawr ar gael ar fewnrwyd y Cyngor ar gyfer unrhyw aelod o staff sydd yn ddefnyddiwr cyfrifiadur. Mae'r holiadur wedi ei lunio er mwyn rhoi trosolwg ar ymwybyddiaeth staff y Cyngor am y maes, a bydd canlyniadau'r holiadur yn cynorthwyo'r Grwp Gweithredol Diogelu i helpu staff wybod beth i'w wneud pe byddai yn dod ar draws sefyllfa o berygl neu niwed i blentyn neu oedolyn.

## 6. Camau Gweithredu

**Mae'r Panel Gweithredol Diogelu wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Parhau i godi ymwybyddiaeth gweithwyr y Cyngor o drefniadau diogelu corfforaethol a'r angen i gwblhau hyfforddiant.**

Atodiad 3

**RHEOLI GWYBODAETH - SEFYDLIADAU CORFFORAETHOL**

## 1. Cefndir

1.1 Mae'r Cyngor yn gwneud cryn ddefnydd o wybodaeth bersonol yn ei holl feysydd gwaith. Fel rhan o'i gyflogaeth gyda Chyngor Gwynedd mae disgwyl i bob aelod o staff fod yn gyfarwydd â'i gyfrifoldebau Diogelu Data ac ymdrin â gwybodaeth bersonol mewn modd sy'n cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (RhDDC, neu *'GDPR'*).

1.2 Daeth y RhDDC i rym ym Mai 2018, yn ogystal â Deddf Diogelu Data 2018 (oedd yn disodli Deddf Diogelu Data 1998). Golyga hyn y bydd yn rhaid i sefydliadau gydymffurfio â'r RhDDC ynghyd â'r Ddeddf Diogelu Data newydd.

1.3 Golyga hyn bod angen esbonio yn llawer mwy eglur i'r cyhoedd a staff sut mae eu gwybodaeth bersonol yn cael ei ddefnyddio. Mae gan unigolion lawer mwy o hawliau a bydd angen prawf pendant o ganiatâd i ddefnyddio gwybodaeth. Mae'n rhaid adrodd yn genedlaethol os yw gwybodaeth yn mynd ar goll neu i'r lle anghywir a bydd angen gwybod pa wybodaeth bersonol sydd gennych, lle mae'n cael ei storio, efo pwy mae'n cael ei rannu a pha mor hir bydd yn cael ei gadw.

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr Archwiliad oedd sicrhau fod gwybodaeth a gedwir gan y Cyngor yn cael ei gadw yn ddiogel ac mewn cydymffurfiaeth ag egwyddorion y RhDDC a'r Ddeddf newydd. Roedd yr archwiliad yn cwmpasu arsylwi ar drefniadau diogelu gwybodaeth wrth ymweld â sefydliadau'r Cyngor sydd y tu allan i'r prif adeiladau. Roedd hyn yn cynnwys Cartrefi Preswyl a Harbyrau y bu i Archwilio Mewnol ymweld â hwy fel rhan o gynllun blynyddol Archwilio Mewnol 2019-20.

## 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **DIGONOL** | **Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.** |

## 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| **UCHEL IAWN** | 0 |
| **UCHEL** | 0 |
| **CANOLIG** | 1 |
| **ISEL** | 0 |

**5. Prif Ddarganfyddiadau**

5.1 Gwelwyd yn gyffredinol bod ymwybyddiaeth am faterion rheoli gwybodaeth ac egwyddorion diogelu data, ond fod lle i wella ar godi ymwybyddiaeth ymhellach. Gweler isod grynodeb o'r darganfyddiadau yn y sefydliadau yr ymwelwyd â hwy yn ystod 2019-20.

5.2 <u>Cartrefi Preswyl</u>

5.2.1 Dim ond un allan o'r tri Cartref Preswyl ymholwyd oedd yn ymwybodol o'r tîm Rheoli Gwybodaeth. Er hynny, gwelwyd bod gan y tri cartref ddealltwriaeth dda o'r rheolau diogelwch gwybodaeth. Gwelwyd bod y tri cartref yn cadw at y polisi desg glir, yn ymwybodol o'r cyfnodau cadw gwybodaeth ac yn gwneud defnydd o larpiwyr a sachau coch.

5.2.2 Roedd gan y tri cartref drefniadau ar gyfer gwirio pwy sydd ar ben arall y ffôn, man preifat ar gyfer trafod unrhyw faterion cyfrinachol ac nid ydynt yn rhannu unrhyw wybodaeth gyfrinachol dros y ffôn. Gwelwyd bod staff Cartrefi Preswyl yn cwblhau ffurflenni cyfrinachedd sydd yn ran o'r pecyn cais, ac felly yn ymwybodol o'r angen i beidio â thrafod materion tu allan i'r gwaith.

5.3 <u>Harbyrau</u>

5.3.1 Nid oedd swyddogion dau harbwr allan o bedwar yn ymwybodol o'r tîm Rheoli Gwybodaeth a'r gefnogaeth maent yn gynnig.

5.3.2 Roedd gan y pedwar harbwr fan preifat ar gyfer trafod unrhyw faterion cyfrinachol ac roedd y swyddogion yn ymwybodol iawn o'r angen i wirio pwy sydd ar ben arall y ffôn. Roedd swyddogion yr harbyrau yn gwneud defnydd o larpiwr a sachau coch, ac yn ymwybodol o'r cyfnodau cadw ar gyfer y gwybodaeth dan eu gofal.

5.3.3 Roedd TCC wedi ei osod mewn tri allan o'r pedwar harbwr a ymwelwyd, a gwelwyd bod arwyddion i hysbysu'r cyhoedd o'r defnydd wedi eu gosod ar yr adeiladau. Nid oedd y system TCC yn gweithio yn un o'r harbyrau allan o'r tri yn ystod yr ymweliad. Mae swyddogion penodedig yn rheoli'r systemau TCC, ond petai ymholiad gan yr Heddlu, yr Harbwrfeistr yn unig fuasai'n delio â hwy. Yn yr achosion yma mae angen cwblhau ffurflen diogelu data.

**6. <u>Camau Gweithredu</u>**

**Mae'r Rheolwr Ymchwil a Gwybodaeth wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Parhau i godi ymwybyddiaeth gweithwyr y Cyngor o drefniadau rheoli gwybodaeth gan gynnwys Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol.**

Atodiad 4

**COSTAU TEITHIO**
**GwE**

## 1. Cefndir

1.1 Mae Cyngor Gwynedd, sef Awdurdod lletuol GwE, wedi mabwysiadu trefn ble gall gweithwyr sydd â chyfrif TG hawlio unrhyw gostau teithio a chynhaliaeth drwy system hunanwasanaeth. Fel rhan o’r drefn yma, cyflwynir manylion teithiau ar-lein ac nid oes angen awdurdodiad gan reolwr er mwyn i’r taliad gael ei brosesu, ond mae ganddynt y gallu i wrthod ceisiadau os ydynt o’r farn eu bod yn amhriodol neu’n anghywir. Bwriad y drefn newydd yw lleihau’r baich gweinyddol oedd ynghlwm â’r drefn flaenorol o gwblhau cais papur oedd angen awdurdodiad rheolwr llinell, ei ardystio gan ddaliwr y gyllideb ac yna ei fewnbynnu gan swyddogion gweinyddol i’r system i gynhyrchu’r taliad.

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod proses effeithlon ac effeithiol mewn lle ar gyfer hawlio costau teithio drwy’r system hunanwasanaeth, sy’n lleihau’r baich gweinyddol ac yn cadw risg o golled drwy gamgymeriad neu dwyll i lefelau priodol. Roedd yr archwiliad yn cwmpasu darganfod amlder cynnal gwiriadau gan reolwyr a gwirio sampl o geisiadau costau teithio a gyflwynwyd.

## 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i’r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| CYFYNGEDIG | **Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â’r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau’r risgiau mae’r gwasanaeth yn agored iddynt.** |

## 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau’r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| UCHEL IAWN | 0 |
| UCHEL | 1 |
| CANOLIG | 1 |
| ISEL | 0 |

## 5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Mae’r drefn o gyflwyno ceisiadau drwy hunanwasanaeth yn lleihau'r gwaith gweinyddol yn sylweddol. Mae’r cyfrifoldeb am gynnal gwiriadau yn parhau gyda’r rheolwyr, felly mae’r risg o gamgymeriadau neu dwyll costus yn ddibynnol ar ba mor drylwyr mae’r rheolwyr yn gwirio ceisiadau. Yn yr ystyr yma, nid yw’r drefn wedi newid wrth gymharu â threfniant ceisiadau costau teithio papur, ond bod y drefn newydd yn ddibynnol ar ymrwymiad y rheolwyr i fewngofnodi i’r system hunanwasanaeth yn fisol i gynnal y gwiriadau.

5.2 Mae’r drefn yn tybio bod rheolwyr yn gwirio’r ceisiadau ac yn gwrthod rhai amhriodol. Cynhyrchiwyd adroddiad oedd yn dangos pa reolwyr sydd wedi a pha reolwyr sydd heb wirio ceisiadau dros gyfnod o fisoedd diweddar, a gwelwyd nad oedd y rhan helaeth o geisiadau staff GwE yn cael eu gwirio, er bod y system yn cynhyrchu e-byst i reolwyr sydd heb ymweld â’r system hunanwasanaeth i wirio costau teithio gan nodi’r angen “*i chwi wirio costau teithio eich staff yn y system Hunan Wasanaeth cyn y dyddiad rhyddhau*” gan nodi'r dyddiad rhyddhau perthnasol. Yn ogystal, mae neges atgoffa yn ymddangos yn y system hunanwasanaeth.

5.3 Darganfuwyd bod camgymeriadau yn gallu cael eu prosesu (e.e. gwelwyd cais am 800 milltir am daith 80 milltir) a daethpwyd â hyn i sylw GwE i’w cywiro. Dengys felly bod camgymeriadau amlwg yn gallu disgyn drwy’r rhwyd petai rheolwyr ddim yn cynnal gwiriadau.

5.4 Gwelwyd felly bod risg o geisiadau amhriodol yn bodoli, ond nid yw’n sylweddol uwch wrth gymharu â’r trefniant o gyflwyno ceisiadau costau teithio papur gan fod y ddwy drefn yn ddibynnol ar onestrwydd y swyddog a pharodrwydd y rheolwr i’w gwirio a’u herio ble’n briodol.

5.5 Cytunodd Cabinet Cyngor Gwynedd ar y 13 Mawrth 2018 i addasu'r rheolau ar gyfer adhawlio costau teithio. Yn weithredol o’r 1 Gorffennaf 2018 ymlaen, caiff swyddogion (gan gynnwys GwE) ond hawlio ad-daliad am y nifer o filltiroedd busnes a deithir uwchben y nifer o filltiroedd a deithir rhwng y cartref a’r man gwaith arferol. Mynegir yn y Polisi Teithio a Chynhaliaeth; “*Os yw taith fusnes yn dechrau ac yn gorffen yng nghartref yr unigolyn, yna dylid tynnu’r nifer milltiroedd a deithir yn ôl ac ymlaen i’r ganolfan waith arferol allan o’r cyfanswm sy’n cael eu hawlio.*” Bwriad y newid yn y Polisi yma yw arbed arian, ond gwelwyd fod gwariant GwE ar god gwariant 2GWR 2710 (lwfansau ceir cyffredinol, llai costau trên) wedi cynyddu rhwng 2017/18 a 2018/19. Mae cyfrifon alldro GwE yn dangos lleihad yng nghostau teithio sy’n cael ei ariannu o’r gyllideb craidd yn unig, h.y. gwaith craidd y gwasanaeth o wella ysgolion ar rhan y 6 awdurdod lleol o £123,391 yn 2017/18 i £122,416 yn 2018/19. Yn ôl GwE, mae cynnydd wedi bod yng nghostau teithio’r gwasanaeth ar y gwaith ehangach, h.y. oherwydd gofynion y grantiau gan Llwyodraeth Cymru yn benodol yn ystod y cyfnod sylweddol yma o ddiwygio addysg yng Nghymru.

5.6 Yn dilyn trafodaethau rhwng GwE a’r Adran Cefnogaeth Gorfforaethol, cytunwyd i adolygu lleoliadau gwaith pob aelod staff GwE, a hynny yn weithredol o’r 1 Gorffennaf 2018. Gwelwyd fod nifer o’r staff wedi dymuno newid lleoliad gwaith, a hynny i’r swyddfeydd sydd agosaf i’w cartrefi. Nid oes modd diystyru'r ffaith gall hyn fod wedi digwydd mewn ymateb i’r newid yn y Polisi a’r effaith caiff hyn ar gostau teithio'r swyddogion, yn hytrach nag am resymau ymarferol i GwE. Mae hyn yn seiliedig ar y ffaith bod ceisiadau costau teithio'r swyddogion yn awgrymu nad oes newid wedi bod o ran eu trefniadau gweithio, ond wrth reswm mae’r newidiadau wedi cael effaith ar gostau teithio'r swyddogion drwy leihau'r elfen rhaid iddynt dynnu o bob hawliad, yn ogystal â galluogi'r swyddogion i hawlio costau am deithio tu hwnt i’w lleoliadau swyddogol newydd.

5.7 Mae natur gwaith GwE yn golygu bod elfen fawr iawn o deithio ynghlwm â’r gwaith, gan gynnwys ymweliadau rheolaidd i ysgolion gwahanol, neu i’r amryw o swyddfeydd sydd ar draws y Gogledd. Mae’r swyddogion bellach gyda’r hawl i hawlio costau teithio am unrhyw daith sy’n fwy na’r pellter rhwng eu cartref a’u man gwaith swyddogol, sy’n golygu gall swyddogion hawlio costau teithio i fynd i’w man gwaith ‘arferol’, sydd ddim

o reidrwydd eu man gwaith swyddogol. Gan fod gan GwE fynediad at nifer o swyddfeydd, mae'n bosib i staff weithio yn y swyddfeydd sydd agosach i'w cartrefi o bryd i'w gilydd drwy drefniant 'hot desk'. Mae trefniant o'r fath o fudd i GwE a'r swyddogion, ond nid oes angen newid eu lleoliad gwaith swyddogol i gyflawni hyn.

5.8 Ymysg y trafodaethau i newid lleoliadau gwaith swyddogol, darganfuwyd fod GwE wedi ceisio symud rhai staff i leoliadau 'virtual', gan nad oedd ganddynt swyddfeydd yn y lleoliadau oedd y staff yn dymuno symud iddynt. Defnyddiwyd cyfleusterau 'hot desk' yn y lleoliadau fel man gwaith swyddogol yn y diwedd gan fod angen cael man gwaith ffisegol. Eto caiff hyn yr effaith o alluogi'r swyddog i hawlio costau teithio (ac amser, os yn berthnasol i delerau'r swydd) am unrhyw daith sydd yn fwy na'r pellter o'r cartref i'r man gwaith swyddogol yma.

5.9 Wrth wirio hawliadau costau teithio'r swyddogion, ymddengys bod y rhai sydd wedi newid lleoliad gwaith swyddogol wedi cael budd ariannol, boed drwy hawlio am y teithiau maent yn gwneud i'w lleoliadau gwaith arferol, neu drwy leihau'r golled sydd ynghlwm â'r pellter rhwng y cartref a'r man gwaith swyddogol - neu gyfuniad o'r ddau.

5.10 Nodir Polisi Gwerth am Arian GwE "*Mae Gwerth am Arian yn derm a ddefnyddir i asesu p'un a yw sefydliad wedi cael y budd gorau neu beidio o'r gwasanaethau y mae'n eu sicrhau a'u darparu, a hynny o fewn yr adnoddau sydd ar gael... Mae cyflawni Gwerth am Arian yn cael ei ddisgrifio yn aml yn nhermau'r 'tair E' - economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd:*

*(i) economi - lleihau cost yr adnoddau ar gyfer gweithgaredd ('gwneud pethau am bris is');*

*(ii) effeithlonrwydd - perfformio tasgau gydag ymdrech rhesymol ('gwneud pethau y ffordd gywir'); ac*

*(iii) effeithiolrwydd - i ba raddau y bodlonir amcanion ('gwneud y pethau iawn').*

*...Mae rhaid i Werth am Arian fod yn ran naturiol o'r broses gwneud penderfyniadau ar bob lefel ar draws GwE. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth gynllunio neu adolygu gweithgareddau sydd â goblygiadau ariannol sylweddol... Bydd rhaid bodloni'r Bwrdd Ansawdd Busnes yr eir i'r afael yn ddigonol â materion Gwerth am Arian a bod y prif feysydd gwariant, gan gynnwys costau staff, yn cael eu craffu yn briodol*." Gan fod goblygiadau ariannol ynghlwm â symud lleoliadau gwaith gweithwyr, credir ei fod yn rhesymol bod achos busnes mewn lle i gyfiawnhau y newidiadau ac i amlygu y buddion i GwE sy'n deillio o'r trefniadau arfaethedig. Lluniwyd adroddiad i'r cyd-bwyllgor GwE ar y 22 Mai 2019 gyda'r bwriad o gyflwyno, a chymeradwyo lleoliadau gwaith staff. Fodd bynnag, nid yw'r adroddiad yn crybwyll y ffaith bod lleoliadau gwaith wedi newid, nac y goblygiadau ariannol o hynny. Yn dilyn cyngor gan y Swyddog Monitro, ni gyflwynwyd yr adroddiad i'r Cyd-Bwyllgor gan mai mater rheolaethol yw newid amodau gwaith unigol, a gan bod y newidiadu eisoes yn weithredol ers 1 Gorffennaf 2018.

5.11 Mae Polisi Gwerth am Arian GwE hefyd yn nodi "*er mai prif bwrpas archwilio mewnol yw asesu'r system reoli fewnol, mae'r archwilwyr mewnol mewn lle da yn aml i asesu Gwerth am Arian a chynnig sylwadau yn y meysydd a adolygir*". I'r perwyl yma, nid oes modd i Archwilio Mewnol roi sicrwydd bod ystyriaeth wedi ei roi i gael gwerth am arian wrth newid lleoliadau gwaith.

## 6. <u>Camau Gweithredu</u>

**Mae GwE wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Atgoffa rheolwyr i wirio hawliadau costau teithio.**

**UNED DIOGELWCH FFYRDD**
**AMGYLCHEDD**

## 1. Cefndir

1.1 Uned o fewn yr adran Amgylchedd yw Diogelwch Ffyrdd. Mae tudalen Facebook yr Uned yn nodi: 'Mae Uned Diogelwch Ffyrdd Cyngor Gwynedd yn cynnig hyfforddiant o bob math i bob oedran ar draws Gwynedd. Uchelgais yr Uned yw lleihau'r nifer o bobl sy'n cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol ar ffyrdd Gwynedd.'

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle a sicrhau bod gwasanaethau'r Uned Diogelwch Ffyrdd yn cael eu cyflawni'n briodol. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu adolygu trefniadau hybu gwasanaethau'r uned, derbyn a gweithredu ar geisiadau ac ymholiadau am wasanaeth a delio â chwynion diogelwch ffyrdd ac adolygu trefniadau monitro perfformiad y gwasanaeth/cyflwyno ystadegau lleol.

## 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **DIGONOL** | **Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.** |

## 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| **UCHEL IAWN** | 0 |
| **UCHEL** | 0 |
| **CANOLIG** | 2 |
| **ISEL** | 0 |

## 5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Gwiriwyd sampl o daliadau wnaethpwyd gan yr Uned i hyfforddwyr gyrru a chwmnïau eraill perthnasol. Roedd y taliadau wiriwyd wedi eu trin yn briodol ac yn amserol.

5.2 Derbyniwyd ystadegau ar ymweliadau ysgolion gan yr Uned. Roedd yr ystadegau'n dangos bod 44 o'r 44 ysgol wiriwyd wedi derbyn ymweliad o fewn y flwyddyn addysgol 19/20. Mae'r Uned Diogelwch Ffyrdd yn adrodd ar eu perfformiad pob 3 mis. Gwelwyd bod y mesur perfformiad a'r dull adrodd yn ddigonol.

5.3 Mae gan Uned Diogelwch Ffyrdd Cyngor Gwynedd dudalen Facebook eu hunain (https://www.facebook.com/pg/Diogelwch-Ffyrdd-Gwynedd-Road-Safety-345094455627034/posts/).

Mae tudalen Facebook Uned Diogelwch Ffyrdd Gwynedd yn cael ei diweddaru yn aml. Roedd gwybodaeth am wahanol swyddogaethau'r Uned ar y dudalen Facebook. Roedd gwefan arall yn un o ganlyniadau uchaf pan fewnbynnwyd 'Diogelwch Ffyrdd Gwynedd' i beiriant chwilio megis Google (http://www.dffgwyneddmon.net/index.php?cID=373). Trafodwyd gyda staff yr Uned ac eglurwyd i'r Archwiliwr nad oedd y wefan yn cael ei diweddaru mwyach. O ganlyniad, roedd llawer o wybodaeth oedd wedi dyddio ar y wefan. O dan adran 'newyddion' y wefan, gwelwyd bod y darn o newyddion diweddaraf wedi ei ddyddio 20/12/2018. Rhestrir gweithdai gall ymwelwyr i'r wefan 'archebu lle' arnynt gyda dyddiadau o 2014. Ni ddylai'r wefan fod ar gael i'r cyhoedd os nad yw'n cael ei diweddaru.

5.4 Mae atodiad B polisi Cyfryngau Cymdeithasol y Cyngor yn nodi: 'Dylai unrhyw un sy'n ystyried cynnal ymgyrch drwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol gysylltu â'r Uned Gyfathrebu am arweiniad yn y lle cyntaf.' Derbyniwyd rhestr gan y Swyddog Cyfathrebu – Y Wasg/Hyrwyddo Gwasanaethau o dudalennau cyfryngau cymdeithasol sydd wedi eu cymeradwyo gan yr Uned Gyfathrebu. Roedd tudalen Facebook Uned Diogelwch Ffyrdd wedi'i rhestru yma a gwelwyd bod y cais atodol wedi ei gwblhau'n briodol.

5.5 Mae swyddogion croesi ar gyfer ysgolion yn ran o Uned Diogelwch Ffyrdd y Cyngor. Gwiriwyd statws DBS sampl o Groeswyr. Gwelwyd bod 10 allan o'r 10 oedd yn y sampl yn meddu tystysgrif DBS dilys wedi'i wobrwyo o fewn y 3 mlynedd diwethaf. Roedd tystysgrif DBS un unigolyn yn terfynu Mis Mawrth 2020 a gwelwyd bod camau cychwynnol wedi eu cymryd i gael tystysgrif DBS newydd. Maent yn derbyn hyfforddiant mewnol o fewn yr Uned. Nid oes cofnod o hyn yn cael ei gadw sy'n cynyddu'r risg bod Croeswyr yn gweithio heb dderbyn yr hyfforddiant diweddaraf.

## 6. Camau Gweithredu

**Mae'r Swyddog Diogelwch y Ffyrdd, Cydlynydd Croeswyr ifanc, Cymhorthydd Cefnogol a Thechnegol wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Rhwystro hen wefan Diogelwch Ffyrdd Gwynedd rhag bod yn weledol i'r cyhoedd gyda chymorth yr adran TG.**
- **Cadw cofnod parhaus o hyfforddiant swyddogion croesi.**

Atodiad 6

**CYSONI BANC**
**CYLLID**

## 1. Cefndir

1.1 Cysoni banc yw'r broses o baru'r balansau yng nghofnodion ariannol y Cyngor gyda'r wybodaeth gyfatebol ar ddatganiadau banc. Nôd y broses hon yw canfod ac adnabod y gwahaniaethau rhwng y ddau. Dylid cwblhau cysoniad banc yn rheolaidd ar gyfer pob cyfrif banc, er mwyn sicrhau bod cofnodion ariannol y Cyngor yn gywir.

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod cysoniadau banc yn cael eu cwblhau mewn dull priodol ac effeithiol. Roedd yr archwiliad yn adolygu'r gweithdrefnau sydd mewn lle yn ogystal a gwirio dogfennaeth a chofnodion sampl o gysoniadau banc sydd wedi eu cwblhau yn ddiweddar.

## 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **DIGONOL** | **Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.** |

## 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| **UCHEL IAWN** | 0 |
| **UCHEL** | 0 |
| **CANOLIG** | 2 |
| **ISEL** | 0 |

## 5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Mae'r Adran Gyllid wedi mabwysiadu gweithdrefn ar gyfer paratoi cysoniadau banc, gyda gwahanol swyddogion yn gyfrifol am wahanol gyfrifon. Mae'r trefniant yma o gynnal y gwahanol gysoniadau; dyddiol, misol a chwarterol, wedi bod mewn lle ers peth amser ac yn cael eu cynnal gan swyddogion profiadol. Fodd bynnag, wrth drafod trefniadau dirprwyo, darganfuwyd nad oes trefniant swyddogol mewn lle ar gyfer cynnal y cysoniadau petai'r swyddogion arferol ddim yn eu gwaith. Ar gyfer absenoldeb tymor byr fel salwch neu wyliau, bydd y gwaith yn cael ei chynnal gan y swyddogion arferol wedi iddynt ddychwelyd i'r gwaith. Ar gyfer absenoldeb tymor hir, credir bydd cyd-weithwyr yn gallu cyflawni'r cysoni, ond nid oes trefniadau pendant mewn lle sy'n creu'r risg o fethiant i gynnal y cysoniadau mewn amgylchiadau o'r fath. Gwelwyd nodyn yn ffeil yr Uned Cyfrifeg ar gyfer mis Awst 2019 yn esbonio na wnaed y cysoniad oherwydd gwyliau.

5.2 Nid yw’r weithdrefn o gynnal cysoniadau wedi newid llawer dros y blynyddoedd, ac mae’r swyddogion sydd ynghlwm a’r gwaith yn ymwybodol o’u dyletswyddau. Fodd bynnag, darganfuwyd nad oedd cyfrif newydd Byw’n Iach Cyf. wedi cael ei gysoni ers sefydlu’r cwmni, oherwydd diffyg ymwybyddiaeth o’r cyfrifoldeb i’w cysoni.

5.3 Mae nifer o ganllawiau ar gael sy’n egluro'r amryw adroddiadau a ddefnyddir i baratoi cysoniadau banc. Gan nad oes proses swyddogol i ddirprwyo gwaith mewn cyfnod o absenoldeb mae’n bwysig bod y canllawiau yn gyfredol ac yn disgrifio'r broses gam wrth gam fel y gall swyddog arall gyflawni’r gwaith lle bo’r angen. Mae’n fwriad gan y gwahanol wasanaethau o fewn Cyllid i ddiweddaru eu canllawiau i’r perwyl hyn. Daeth i’r amlwg yn ystod yr archwiliad bod swyddogaethau helaeth gan y Swyddog Incwm o ran paratoi dogfennau amrywiol ar gyfer cysoni a gwirio incwm y Cyngor. Cadarnhawyd bod dogfen amlinellol ar gael yn y Gwasanaeth Incwm sy’n rhoi disgrifiad o drefniadau’r Swyddog Incwm, ond byddai ehangu ar y ddogfen gyfredol yn rhoi hyder bod swyddog dirprwyol yn gwbl gyfarwydd gyda’r anghenion mewn cyfnod o absenoldeb y cysonwr arferol e.e. enghraifft o’r taenlenni pwrpasol, eu henwau a’u lleoliad, sut i baratoi’r adroddiadau penodol.

5.4 Mae’r Gwasanaeth Cyfrifeg a’r Gwasanaeth Incwm yn gwneud defnydd o iGwynedd ac yn cynnig mynediad i’r ddogfennaeth berthnasol i’r holl swyddogion angenrheidiol petai angen dirprwyo gwaith, yn ogystal â chadw ffeiliau papur. Fodd bynnag mae’r Swyddog Incwm yn ymwybodol fod angen addasu’r taenlenni o safbwynt cywiro/dileu/ychwanegu dyddiadau, colofnau a fformiwlâu er mwyn hwyluso'r broses i swyddog petai angen dirprwyo yn y dyfodol.

5.5 Caiff y mwyafrif o waith cysoni incwm ei gyflawni yn ddyddiol, gyda chysoniad misol yn cadarnhau cywirdeb y gwaith dyddiol. O ran yr Uwch Dechnegydd Rheolaeth caiff 3 o’r cyfrifon eu cysoni yn fisol yn ogystal â chysoniad cyfansawdd chwarterol. Er mwyn hwyluso’r gwaith cysoni, ac er mwyn datrys anghysondebau, cyflawnir rhai o’r tasgau perthnasol yn ddyddiol ac eraill oddeutu pob 10 diwrnod. Gwelwyd tystiolaeth fod y gwaith o gyflawni'r cysoniad cyfansawdd chwarterol yn cael ei wneud yn amserol gan yr Uwch Dechnegydd Rheolaeth a bod y gwaith yn cael ei wirio a’i awdurdodi gan y Cyfrifydd Grŵp. Yn yr un modd gwelir tystiolaeth fod gwaith cysoni'r Swyddog Incwm wedi cael ei wirio gan y Rheolwr Incwm a’i awdurdodi gan y Pennaeth Cynorthwyol Cyllid.

5.6 Gwiriwyd cysoniadau banc yr Uned Cyfrifeg a'r Gwasanaeth Incwm am fisoedd Medi, Rhagfyr 2019 ac Ionawr 2020. Arsylwyd y Swyddog Incwm yn cynnal cysoniad diwrnod yn ogystal a cysoniad misol mis Ionawr 2020. Ar amser yr archwiliad, ni lwyddwyd i gysoni mis Ionawr 2020.

5.7 Gwelwyd o waith cysoni misol y Gwasanaeth Incwm fod nifer fawr o addasiadau hanesyddol sy’n deillio o amser cyn y Swyddog Incwm presennol ac fe gaiff y rhain eu cario o un mis i’r llall ar gyfer pwrpas cysoni. Gwelir gall y broses cysoni misol fod yn gymhleth, ac er gwaethaf y cysoniadau dyddiol sydd yn cael eu cynnal, gall anghysondebau godi yn y misol sy’n waith llafurus i’w ddatrys. Ymddengys nad yw’r gwaith dyddiol presennol yn dileu'r risg o anghysondebau yn y gwaith misol. Ymddengys nad oes trefn o ddileu neu gywiro'r tan/gôr fancio cronnus sydd heb glirio ac nid oedd esboniad i’w weld am yr achos craidd ar gyfer y gwahaniaethau hyn sy’n golygu fod y daenlen yn aneglur i ddefnyddwyr lleyg, a gall unrhyw gamgymeriad ogwyddo’r gwaith cysoni misol yn ei gyfanrwydd.

5.8 Wrth gysoni yn fisol gwelwyd esiampl o'r taliadau cardiau debyd, gyda'r cyfanswm cyfriflyfr yn £11 a'r swm dalwyd i mewn i'r banc yn £8. Does dim trefn o gywiro hyn ac felly caiff ei roi dan y pennawd addasiadau eraill, er bod ymwybyddiaeth bod posib na wnaiff y gwahaniaeth hwn o £3 gael ei ddarganfod.

## 6. Camau Gweithredu

**Mae'r Adran Gyllid wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Sicrhau bod trefniadau parhad busnes yn briodol drwy sefydlu trefniadau dirprwyo priodol a diweddaru canllawiau i alluogi'r dirprwy i gyflawni'r gwaith cysoni.**
- **Adolygu y broses cysoni dyddiol er mwyn lliniaru y risg o anghysondebau misol.**

Atodiad 7

**BUDD-DALIADAU – ADOLYGIAD O'R RHEOLAETHAU ALLWEDDOL CYLLID**

## 1. Cefndir

1.1 Mae Cod Ymarfer Archwilydd Cyffredinol Cymru Mai 2018 yn datgan y bydd archwilwyr allanol yr Awdurdod wrth gynnal eu harchwiliad o gyfrifon y Cyngor yn dibynnu, lle'n bosib ar waith Archwilio Mewnol (ac eraill). Caiff y System Fudd-dal ei hystyried yn "system ariannol bwysig" ac felly cynhelir adolygiad ar reolaethau allweddol y system yma yn flynyddol.

1.2 Bydd y Gwasanaeth Budd-dal yn prosesu ceisiadau am fudd-dal tai a gostyngiad treth cyngor pan fydd ymgeisydd yn cyflwyno cais i hawlio budd-dal tai a/neu ostyngiad treth cyngor ynghyd â thystiolaeth briodol, gan gynnwys cadarnhad ei bod yn fyr o incwm a methu fforddio rhent a/neu gost y dreth cyngor.

1.3 Ers y 12 Rhagfyr 2018, mae Gwynedd yn ardal wasanaeth Credyd Cynhwysol Llawn. Mae Credyd Cynhwysol yn cymryd lle chwech o fudd-daliadau sef Budd-dal Tai, Credyd Treth Plant, Credyd Treth Gwaith, Cymhorthdal Incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth neu Lwfans Ceisio Gwaith. Mae'r holl geisiadau o dan y Cynllun Gostyngiad Treth Cyngor yn parhau i gael eu gweinyddu gan y Gwasanaeth Budd-dal.

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod trefniadau priodol mewn lle ar gyfer asesu a phrosesu ceisiadau budd-dal, bod y system budd-dal yn cyfrifo symiau budd-daliadau'n gywir ac fe'u telir yn amserol drwy wirio sampl o geisiadau budd-dal ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019-20. Roedd yr archwiliad hefyd yn cadarnhau bod cysoniadau priodol yn cael eu cynnal, adolygu trefniadau rheoli perfformiad yr uned a gwirio bod trefniadau diogelu data digonol mewn lle.

## 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| UCHEL | **Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.** |

## 4. Prif Ddarganfyddiadau

4.1 Gwelwyd bod rheolaethau mewnol cryf yn bodoli o fewn trefniadau gweinyddu'r System Budd-daliadau.

4.1.1 Detholwyd ar hap sampl o 30 o geisiadau newydd o'r adroddiad 'hb7243a' a gwelwyd bod tystiolaeth briodol wedi ei dderbyn ar gyfer pob cais a bod y dystiolaeth yn unol â pholisi gwireddu ar sail risg. Yn ogystal gwiriwyd sampl o 15 o daliadau estynedig a cheisiadau ôl-ddyddiedig a gwelwyd eu bod yn unol â'r rheoliadau cyfredol.

4.1.2 Gwelwyd bod cysoniadau o'r budd-daliadau yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Gwiriwyd taenlenni cysoni misoedd Ebrill, Awst a Rhagfyr 2019 a phrofwyd bod y system yn cyd-fynd â'r hyn a dalwyd allan.

Atodiad 8

**ARCHEBU A DEFNYDDIO FFURFLENNI P6**
**OEDOLION, IECHYD A LLESIANT / PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD**

**1. Cefndir**

1.1 Defnyddir y ffurflenni P6 ar gyfer unrhyw wariant o fewn yr adrannau Oedolion, Iechyd a Llesiant, a Phlant a Chefnogi Teuluoedd, boed ar gyfer codi archebion, talu anfonebau neu ar gyfer mân wariant. Derbyniwyd cais i adolygu'r drefn o ddefnyddio'r ffurflenni P6 gan ystyried os yw'n angenrheidiol neu yn dyblygu gwaith yn ddiangen.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod trefniadau gweinyddol addas mewn lle o fewn yr adrannau ar gyfer codi archebion a thalu anfonebau boed yn nwyddau neu'n wasanaethau, yn ogystal â gweinyddu taliadau arian mân. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio priodoldeb y trefniadau archebu o fewn y gwasanaethau gan ddethol sampl o archebion er mwyn sicrhau fod y trefniadau yn addas i bwrpas. Roedd yr archwiliad hefyd yn cwmpasu adolygu gweinyddiaeth taliadau arian mân a'r cynlluniau arfaethedig o fewn yr adrannau.

**3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad**

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **UCHEL** | **Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.** |

**4. Prif Ddarganfyddiadau**

4.1 Mae'r drefn o ddefnyddio ffurflenni P6 wedi ei gyflwyno ers cyn ad-drefnu llywodraeth leol yn 1996 ac yn arferiad o fewn yr adrannau lle mae'r holl staff yn ymwybodol ohono. Daeth y drefn i rym yn wreiddiol o ganlyniad i orwario sylweddol ac i sicrhau bod rheolau ariannol y Cyngor yn cael eu dilyn er mwyn cysondeb a chywirdeb wrth archebu nwyddau/gwasanaethau a thalu gan ddefnyddio'r cyllidebau cywir.

4.1.1 Mae'r ffurflen P6 yn gweithredu fel ffurflen codi archeb swyddogol o lyfr archeb ac yn cynnwys yr un manylion, yn ogystal â manylion pellach sy'n berthnasol i'r adrannau yn ddibynnol ar y math o archeb neu daliad sydd angen. Yn ei habsenoldeb, mae'n bosib y byddai'r Tîm Cyllid Oedolion a Plant yn derbyn ceisiadau i godi archebion heb y wybodaeth angenrheidiol.

4.1.2 Mae'r ffurflen P6 yn cael ei harwyddo gan reolwr sydd â hawl i godi archebion ac/neu yn gyfrifol am gyllideb. O ganlyniad mae'r ffurflen yn gweithredu fel awdurdod i'r Tîm Cyllid Oedolion a Plant i gwblhau archebion a thalu anfonebau. Mae derbyn ffurflen P6 yn electronig dros e-bost hefyd yn dderbyniol ac yn gweithredu fel awdurdod os mai'r swyddog cyfrifol sy'n anfon yr e-bost. Os nad yw'r ffurflenni P6 wedi eu cwblhau yn ddigonol gyda'r manylion angenrheidiol, ni fydd yr archeb/taliad yn cael eu prosesu gan y staff gweinyddol sydd yn sicrhau trywydd archwilio cyflawn ar gyfer pob archeb/anfoneb.

4.1.3 Mae defnydd cywir o'r ffurflen wrth godi archebion yn sicrhau fod archebion yn cael eu cwblhau a'u codi yn ganolog ac o ganlyniad bod yr anfonebau yn cael eu derbyn yn ganolog gan y Tîm Cyllid Oedolion a Plant. Oherwydd bod y ffurflen P6 eisoes wedi ei hawdurdodi, mae'r Tîm Cyllid Oedolion a Plant yn gallu talu'r anfoneb gyda'r rhif cyfrif ar gyfer y gyllideb gywir heb oedi a heb yr angen i geisio cysylltu â'r sawl sy'n gyfrifol am yr archeb ac/neu'r gyllideb. Mae hyn yn arbed amser gan alluogi i anfonebau gael eu talu yn brydlon gan wella perfformiad talu anfonebau'r adrannau. Mae'r drefn hefyd yn osgoi'r posibilrwydd o anfonebau sydd angen eu talu yn aros ar ddesg gweithwyr sydd ddim yn ymweld â'r swyddfa yn aml nac ar sail reolaidd.

4.1.4 Mae'r drefn P6 hefyd yn ddefnyddiol ar gyfer archebion electronig lle caiff yr archeb ei chodi'n swyddogol yn ganolog. Bydd y drefn P6 yn cael ei hymgorffori o fewn y system Care Director (WCCIS)1 a ddefnyddir gan wasanaethau cymdeithasol a gofal y Cyngor. Pan ddaw'r drefn yma'n weithredol, bydd yn galluogi i'r broses archebu fod yn gwbl ddi-bapur.

4.1.5 Mae'r Tîm Cyllid Oedolion a Plant, yn ogystal â'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol o'r farn bod y ffurflenni P6 yn ddefnyddiol. Fel sy'n wir am bob proses, dylai'r swyddogion perthnasol adolygu'r trefniadau yn barhaus gan sicrhau nad oes elfen o ddyblygu a bod y trefniadau yn cyd-fynd ag egwyddorion Ffordd Gwynedd drwy sicrhau bod unrhyw gamau gwag yn cael eu hadnabod.

Atodiad 9

**GORAMSER**
**CORFFORAETHOL**

## 1. Cefndir

1.1 Yn dilyn achosion Llys diweddar, mae pryder bydd deddf newydd yn dod i rym a fuasai'n golygu cynnydd yn y gwariant ar oramser. Byddai'r ddeddf yn rhoi hawl i bob gweithiwr sy'n derbyn taliadau am oramser gwirfoddol yn rheolaidd i dderbyn elfen o oramser yn eu tâl gwyliau hefyd. Mae'r adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn rhagweld bydd angen clustnodi £193,000 yn ychwanegol i'w cyllideb ar gyfer 2020-21 i gwrdd â hyn. O ganlyniad bu cais gan y Pennaeth Adran i edrych ar reolaeth taliadau Goramser o fewn yr adran yma yn benodol.

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod trefniadau addas mewn lle i sicrhau fod taliadau goramser yn cael eu talu ar y gyfradd gywir a'u bod yn briodol. Roedd yr archwiliad yn edrych yn benodol ar yr adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol ar gais y Pennaeth Adran. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu edrych ar fanylion trafodion o'r cyfriflyfr a dethol sampl o daliadau o wahanol wasanaethau a lleoliadau gwaith o fewn yr adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol.

## 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **CYFYNGEDIG** | **Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.** |

## 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| **UCHEL IAWN** | 0 |
| **UCHEL** | 2 |
| **CANOLIG** | 4 |
| **ISEL** | 0 |

## 5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Gwelwyd bod taliadau am oramser gwirfoddol ar draws pob gwasanaeth o fewn yr adran ac mae goblygiadau unrhyw reolau neu ddeddf newydd yn golygu nad yw'n gynaliadwy i barhau â thaliadau goramser ar yr un gyfradd. Mae'r adran eisoes wedi adnabod hyn ac yn y broses o adnabod cyfleoedd i addasu strwythurau staff a dulliau gweithredu.

5.1.1 Mae nifer o wasanaethau lle mae taliadau goramser yn anorfod. Mae gwaith cynnal a chadw ar ffyrdd prysur yn cael ei gynnal gyda'r nos i leihau'r effaith ar draffig yn ogystal â iechyd a diogelwch y gweithlu. Mae ymateb i ddamweiniau ar y priffyrdd yn ogystal â graeanu gyda'r nos yn weithgareddau tu allan i oriau gwaith arferol lle gweithredu drwy goramser yw'r ffordd mwyaf effeithiol i dalu'r gweithlu ym marn y rheolwyr gan nad oes posib rhaglennu ar eu cyfer. Mae gwaith megis ail wynebu ffyrdd hefyd yn waith lle mae angen ei gwblhau yr un diwrnod ac yn aml nid yw hyd sifft arferol yn ddigonol. Mae'n fwy effeithlon i barhau i weithio ar gyfradd goramser yn hytrach na cheisio ail sefydlu ac ail gychwyn ar y diwrnod canlynol, mae natur deunyddiau megis 'tarmac' a'r angen i osgoi gwastraff hefyd yn berthnasol.

5.1.2 Mae gwariant ar oramser yn uchel iawn mewn gwasanaethau bwrdeistrefol megis casgliadau sbwriel ac ailgylchu. Telir goramser er mwyn ymdopi â'r amser a gollir wrth i gerbydau dorri lawr, methiant i gwblhau'r dasg o fewn yr oriau gwaith ond hefyd ar gyfer casgliadau wedi eu methu. Nid yw'n ymarferol i ddadlau â thrigolion ynglŷn â methu casgliadau a thelir goramser i weithiwyr ddychwelyd i'w casglu. Golyga natur y sifftiau 12.33 awr bod y gweithlu yn amrywio eu cylchdeithiau ar bob sifft a dim o reidrwydd yn casglu sbwriel/ailgylchu o'r un llefydd. Mae'r adran yn gobeithio bydd dychwelyd i sifftiau wythnosol yn rhoi fwy o gysondeb o ran yr amseroedd casglu i'r trigolion ac yn cynyddu ymwybyddiaeth y gweithlu a pha mor gyfarwydd ydynt â'r lleoliadau a'r casgliadau 'drws cefn'. Bydd angen ystyried yr adnoddau a'r gyllideb yn ofalus wrth drawsnewid, er mwyn gwella'r rheolaeth ar wariant goramser.

5.1.3 Mae'r drefn i ddychwelyd i ddiwrnod gwaith arferol o 7.5/7 awr eisoes wedi cychwyn yn Nwyfor ers Gorffennaf 2019 ac yn Arfon ers mis Tachwedd 2019 gyda Meirionnydd i ddilyn yn 2020. Yn ogystal mae'r adran wedi trafod gyda'r undebau er mwyn gwaredu'r drefn 'tasg a gorffen'. Y bwriad yw lleihau'r oriau di-gynnyrch ymysg y gweithlu, lleihau'r taliadau goramser am waith ychwanegol i'r dasg arferol a lleihau'r cymhelliant i ruthro sy'n cyfrannu at anafiadau ac absenoldebau salwch. Gwelwyd patrwm amlwg rhwng absenoldebau salwch a'r gwasanaethau lle mae'r gwariant uchaf ar oramser sef Casglu Sbwriel ac Ailgylchu, Glanhau Strydoedd a Safleoedd Gwastraff. Mae cyfran uchel o'r goramser er mwyn ymdopi â'r diffyg staff a sicrhau parhad gwasanaeth cyflawn.

5.1.4 Mae'r 'Rheoliadau Amser Gwaith' (1998) yn gyfraith sy'n atal cyflogwyr rhag gorfodi gweithwyr i weithio tu hwnt i gyfartaledd o 48 awr yr wythnos dros gyfnod o 17 wythnos. Nid yw gwaith gwirfoddol megis goramser gwirfoddol yn cael ei gynnwys yn y cyfrifiad yma ac mae'n ofynnol i gyflogwyr gadw tystiolaeth pan mae gweithwyr yn arwyddo taflen i gadarnhau eu bod yn dewis eithrio o'r rheol. Mae nifer o weithwyr yn gweithio mewn nifer o swyddi sydd erbyn hyn ar draws nifer o adrannau. Mae'r cyfanswm oriau maent yn gofnodi pob mis yn uchel a thu hwnt i'r 48 awr ac mae angen edrych os oes gweithwyr sydd angen eithrio o'r rheol.

5.1.5 Mae'r cyfradd talu yn amrywio rhwng gwasanaethau ag ardalaoedd. Gwelwyd bod goramser mewn rhai ardaloedd yn bennaf ar gyfradd sylfaenol tra fod ardaloedd eraill yn talu y rhan helaeth ar gyfradd amser a hanner. Ymddengys bod gwaith tu hwnt i oriau sylfaenol ar raddfa amser a hanner tra fod y cyfradd sylfaenol yn cael ei dalu ar gyfer sifftiau ychwanegol er mwyn cyflenwi staff sy'n absennol. Yn ôl y polisïau perthnasol nid yw swyddogion ar gyflog sydd ar raddfa 23 ag uwch i fod i dderbyn taliadau goramser ar gyfradd amser a hanner ond gwelwyd sawl engraifft o hyn.

Mae canllawiau yn yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn nodi bod goramser cynlluniedig i'w dalu ar gyfradd amser a hanner tra bod goramser heb ei gynllunio i'w dalu ar gyfradd sylfaenol. Mae hyn wedi bod yn destun sawl trafodaeth heb ddiweddglo pendant na arweiniad penodol oherwydd y gwahaniaeth yn natur y gwaith a'r amgylchiadau mewn gwahanol adrannau. Mae'r adran Cefnogaeth Gorfforaethol yn y broses o edrych ar y polisi er mwyn cyhoeddi newidiadau sy'n fwy priodol ag addas.

5.1.6 Yn ogystal â newid trefniadau gwaith yn y maesydd Sbwriel ac Ailgylchu mae'r adran yn mynd drwy'r broses o ail strwythuro ers penodi Pennaeth newydd er mwyn i'r unedau Priffyrdd, Bwrdeistrefol a Chomisiynu weithredu yn fwy cyson. Mae'r adran yn bwriadu ail edrych ar strwythur gwaith a staffio gwasanaethau eraill o fewn yr adran er mwyn eu haddasu gyda'r bwriad i leihau'r gwariant ar oramser. Mae treialon llwyddiannus eisoes wedi eu cynnal mewn rhai gwasanaethau megis Safle Gwastraff Meirionnydd lle mae'r penwythnos yn rhan o'r wythnos waith arferol ond mae'r adran yn gweithredu'n ofalus oherwydd yr angen i ystyried natur y gwaith mewn gwahanol ardaloedd o Wynedd cyn penderfynu ar strwythur ymarferol.

## 6. Camau Gweithredu

**Mae'r adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol a Chefnogaeth Gorfforaethol wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Llunio Polisi cyfredol ar gyfer cyfradd a thaliadau goramser.**
- **Monitro'r strwythurau gwaith a'r drefn sifftiau newydd Casglu Sbwriel ac Ailgylchu ac addasu'r cylchdeithiau a'r lefel staffio fel yr angen.**
- **Trefnu patrymau sifftiau sy'n fwy addas i natur y gwaith gan ystyried newid o drefn draddodiadol Llun i Gwener.**
- **Cydweithio â'r gwasanaeth Iechyd a Diogelwch a llunio rhaglen hyfforddiant sy'n blaenoriaethu lles y gweithlu gyda'r bwriad i leihau anafiadau ag absenoldebau salwch.**
- **Monitro'r gweithwyr sydd yn gweithio tu hwnt i 48 o oriau gwaith wythnosol yn gyson a chysidro'r angen iddynt eithrio allan o'r rheoliadau.**

Atodiad 10

**RHAGLEN WAITH PONTYDD**
**PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL**

## 1. Cefndir

1.1 Mae Ymgynghoriaeth Gwynedd (YGC) yn rheoli ac yn llunio Rhaglen Waith Pontydd ar ran yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol. Mae'r rhaglen yn cynnwys pob strwythur megis pontydd, waliau cynnal a chwlferi sy'n eiddo i'r Cyngor ac yn gyfrifoldeb ar y Cyngor i'w cynnal a'u cadw. Mae YGC yn cadw cofnod o'r holl strwythurau yma ac yn gweithredu ar raglen archwilio barhaus ar y pontydd er mwyn sicrhau eu bod yn cyrraedd y gofynion a'r safon angenrheidiol.

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod trefniadau addas yn bodoli er mwyn cynnal archwiliadau ar bontydd sydd o dan ofal Cyngor Gwynedd a bod trefn addas ar gyfer blaenoriaethu unrhyw waith angenrheidiol arnynt a dethol contractwyr. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu edrych ar y drefn o reoli a chynnal y gofrestr asedau, rheoli'r gyllideb a'r drefn o gomisiynu gwaith gan gontractwyr.

## 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **CYFYNGEDIG** | **Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.** |

## 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| **UCHEL IAWN** | 0 |
| **UCHEL** | 2 |
| **CANOLIG** | 1 |
| **ISEL** | 1 |

## 5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Mae'r amrywiaeth o waith sydd wedi eu categoreiddio o fewn y 'Rhaglen Waith Pontydd' yn eang iawn. Mae'r gyllideb yn ystyried y gwaith rhaglenedig a chynnal a chadw ond mewn gwirionedd mae digwyddiadau na ragwelir yn golygu nad yw'r gyllideb ar gael i'w defnyddio fel y bwriedir. O ganlyniad mae gwaith yn y tymor byr yn aml yn cael ei ddisodli o ran blaenoriaeth er mwyn arbed adnoddau, gyda goblygiadau o gostau llawer uwch o bosib yn y dyfodol.

5.1.1 Gwelwyd bod YGC yn defnyddio system Bridgestation sy'n eu galluogi i gadw cofnod o bob strwythur a rheoli cynllun archwilio'r pontydd.

Cofnodir manylion perthnasol y pontydd a darganfyddiadau'r archwiliadau yn ogystal â defnyddio dull sgorio sy'n gyson ar gyfer yr holl bontydd. Gwelwyd bod y system yn cynnwys manylion trylwyr yn dilyn archwiliadau gweledol ar y gwahanol elfennau o'r pontydd. Mae hyn yn cynnwys argymhellion ar gyfer gwaith cynnal a chadw angenrheidiol yn ogystal ag amcanbrisiau ar gyfer y gwaith. Amlygwyd hyn nad oedd y gyllideb yn ddigonol ar gyfer gweithredu ar bob argymhelliad ac yn aml yn golygu mai monitro rhag dirywiad pellach yw'r unig opsiwn ar gyfer gwaith nad yw'n argyfwng.

5.1.2 Mae rhai o'r argymhellion yn waith mân ble nad oes angen contractwyr arbenigol ac yn dasgau gellir gweithwyr ffordd Priffyrdd eu cyflawni, er bod hyn yn digwydd yn bresennol nid oes strwythur na rhaglen benodol yn cael eu gweithredu. Yn hytrach mae'r gwaith ar hap ac wedi ei rannu rhwng nifer o wahanol staff sydd yn rhoi elfen o anghysondeb. Byddai yn fanteisiol i ddod i drefn fwy strwythuredig gyda rhaglen waith a staff penodol wedi eu dethol ar gyfer yr elfennau yma.

5.1.3 Er bod y gyllideb yn bennaf ar gyfer gwaith archwilio a chynnal a chadw ar strwythurau priffyrdd, mae cyfran uchel o'r gyllideb yn gorfod cael ei ddefnyddio ar gyfer gwaith sylweddol yn dilyn difrod a gwaith argyfwng. Mae achosion llys o ganlyniad i ddigwyddiadau hefyd yn golygu gall arian o'r gyllideb gael ei ddefnyddio ar gyfer talu bargyfreithwyr i gynrychioli'r Cyngor. Mae sawl enghraifft lle ddefnyddir y gyllideb ar gyfer gwaith ymatebol fel hyn yn hytrach na gwaith rhaglenedig a gwaith cynnal a chadw angenrheidiol. Mae'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn ganlynol eisoes wedi ei glustnodi ar gyfer gwaith sylweddol sydd angen ei gwblhau. Mae hyn yn ymestyn y cyfnod rhwng adnabod diffygion a chwblhau gwaith cynnal a chadw sy'n golygu dirywiad pellach ac o bosib costau llawer uwch yn y pen draw.

5.1.4 Mae YGC yn cadw system ar wahân ar gyfer llunio rhaglen waith a chadw cofnod o gynnydd y prosiectau. Er bod bwriad i raglennu gwaith angenrheidiol yn flynyddol yn unol â'r gyllideb, mae gwaith argyfwng o ganlyniad i ddigwyddiadau tu hwnt i reolaeth angen eu blaenoriaethu. O ganlyniad mae rhan helaeth o'r gyllideb flynyddol yn cyfrannu at waith ymatebol yn hytrach na gwelliannau a gwaith adeiladu rhaglenedig. Mae unrhyw waith rhaglenedig yn cael eu llithro ymlaen i raglen y flwyddyn ganlynol.

5.1.5 Mae YGC angen gweithredu yn unol â rheolau caffael y Cyngor a'r fframwaith ar gyfer penodi contractwyr ond mae natur ymatebol y gwaith yn cynnwys nifer o brosiectau sy'n argyfyngau ac angen gweithredu arnynt mor fuan â phosib. Mae cydymffurfio â'r telerau yn gallu bod yn rhwystr a all olygu oedi sylweddol cyn gallu cychwyn ar waith. Er mwyn ymdopi â hyn mae achlysuron lle mae YGC wedi dewis penodi contractwyr lleol sydd ar gael i gychwyn y gwaith mor fuan â phosib er mwyn osgoi ymyrraeth a sicrhau parhad i wasanaethau eraill y Cyngor. Nid yw hyn yn ddelfrydol ac er bod y contractwyr a benodir yn rhan o'r fframwaith mae'n ychwanegu elfen o risg i'r Cyngor, fodd bynnag mae hyn yn llawer mwy ymarferol ac yn galluogi i'r Cyngor weithredu yn gynharach er mwyn delio ag argyfyngau a lleihau costau anfuddiol megis rheoli traffig.

5.1.6 O ganlyniad i'r uchod mae'r tîm Syrfewyr Meintiau o fewn YGC yn y broses o lunio canllawiau caffael a thendro sydd yn fwy addas i bwrpas ar gyfer y gwaith yma. Maent hefyd yn bwriadu addasu eu system sgorio a phrisio er mwyn sicrhau fod prisiau mwy realistig yn cael eu derbyn gan ddarpar gontractwyr yn enwedig cwmnïau bychan. Bydd y fframwaith presennol yn dod i ben yn ystod yr Haf a'r gobaith yw cael trefniadau mewnol mwy effeithlon ar gyfer y fframwaith newydd.

5.1.7 Yn bresennol mae YGC yn dilyn rhaglen i archwilio’r pontydd ond nid oes trefniadau ar gyfer archwilio strwythurau eraill megis waliau cynnal sydd hefyd yn hanfodol i strwythurau priffyrdd a ffyrdd Gwynedd. Byddai’n werth ystyried rhaglen i archwilio’r strwythurau hyn yn ogystal â’r pontydd, fodd bynnag byddai angen ystyried yr adnoddau a’r gyllideb sydd ar gael.

5.1.8 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf bu sawl digwyddiad lle'r oedd angen cynnal gwaith argyfwng, sydd wedi golygu defnyddio rhan sylweddol o’r gyllideb. Mae dirywiad pellach mewn nifer o strwythurau yn debygol yn y dyfodol, a gall hyn arwain at gynnydd yn y nifer o ddigwyddiadau gyda goblygiadau posib megis cau strwythurau a lonydd a fyddai’n tarfu’n sylweddol ar wasanaethau a bywyd trigolion. Ymddengys bod yna elfen o betruster rhag defnyddio’r gyllideb ar gyfer mân waith cynnal gan fod yna bryder gall digwyddiadau a all achosi difrod sylweddol fod yn debygol. O ganlyniad mae yna groniad o fân waith sydd angen ei gwblhau gyda diffyg adnoddau i weithredu.

5.1.9 Nid yw sgôr risg yr archwiliad yn adlewyrchiad o’r prosesau a threfniadau gwaith sydd mewn lle wrth reoli rhaglen waith pontydd. Yn hytrach, mae’n adlewyrchu’r risgiau sylweddol sy’n deillio o’r cyfyngiadau cyllidebol ar gyfer ymdopi gyda digwyddiadau ac argyfyngau tu hwnt i reolaeth yr adran.

## 6. Camau Gweithredu

**Mae’r Adran wedi ymrwymo i weithredu’r camau canlynol i liniaru’r risgiau a amlygwyd:**

- **Ymchwilio ac adolygu os yw’n ymarferol i gychwyn rhaglen i archwilio waliau cynnal yn ogystal â phontydd.**
- **Ystyried ychwanegu i’r Gofrestr Risg Corfforaethol gan nodi gall methiant i ariannu gwaith cynnal a chadw ar bontydd arwain at ddirywiad sylweddol yng nghyflwr strwythurau a chostau llawer mwy sylweddol yn y dyfodol.**
- **Ystyried llunio rhaglen waith cynnal a chadw strwythuredig yn deillio o archwiliadau’r pontydd gan ddefnyddio adnoddau staff o fewn yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol.**
- **Llunio a chytuno ar ganllawiau tendro a phenodi contractwyr sydd yn fwy addas i bwrpas ac yn hwyluso’r broses o osod gwaith.**